

Poeni am rywun sy'n cysgu allan?



Dod â phobl sy'n cysgu allan i gysylltiad â gwasanaethau lleol

Street
Link

0300 500 0914

www.streetlink.org.uk

Ar unrhyw noson yng Nghymru a Lloegr, mae 2,700+ o bobl yn cysgu ar ein strydoedd. Mae cysgu allan yn beryglus a hynod o niweidiol i'ch iechyd.

Gwyddom y buasai nifer o bobl yn hoffi helpu pan maen nhw'n gweld rhywun yn cysgu allan ond na wyddon nhw sut. Mae StreetLink yn cynnig ateb ymarferol.

Sut mae **StreetLink** yn gweithio?

Mae StreetLink yn wefan, ap symudol a llinell ffôn 24/7 sy'n eich galluogi i anfon neges yn dweud lle mae rhywun yn cysgu allan. Yna bydd StreetLink yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r gwasanaethau lleol perthnasol er mwyn iddynt geisio dod o hyd iddynt a chynnig cefnogaeth.

Bydd ein tîm yn mynd ar drywydd hyn o fewn deg diwrnod i weld pa gamau a gymerwyd, ac os gofynnwyd, bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i'ch neges.

Nid yw StreetLink yn darparu llety ac nid yw'n wasanaeth brys; yr hyn a wnawn yw helpu i sicrhau bod rhywun sy'n cysgu allan yn dod i gysylltiad â'r gwasanaethau â'r gwasanaethau lleol sy'n gallu eu helpu.

Sut ydw i'n cysylltu?

Mae tair ffordd y gallwch roi gwybod i ni am rywun sy'n cysgu allan:

- Ewch i **www.streetlink.org.uk**, cliciwch ar 'Rhowch wybod i ni am unigolyn sy'n cysgu allan' a rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.
- Lawrlwythwch yr ap symudol (ar gael am ddim o iTunes a Google Play) a dilynwch yr un camau â'r wefan.
- Ffoniwch **0300 500 0914**.

Pa wybodaeth a ofynnir amdani?

Po fwyaf o wybodaeth a gawn ni, po fwyaf yw'r siawns o ddod o hyd i'r unigolyn. Rhowch yr wybodaeth ganlynol os yw'n bosibl:

- Lleoliad penodol ar gyfer yr unigolyn sy'n cysgu allan. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio'r map i ddangos yr union lleoliad os ydych yn defnyddio'r wefan neu ap symudol.
- Disgrifiad mor fanwl â phosibl o'r lleoliad. E.e. siopau neu gofebion gerllaw.
- Gwybodaeth fanwl am amser y dydd y mae'r unigolyn fel arfer yn y lleoliad.
- Unrhyw wybodaeth amdanynt h.y. enw, rhyw, oed, ethnigrwydd ac unrhyw ddisgrifiad corfforol arall.